CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**06.03.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) GW, DAW; EY; TAJ;AR<br>**Ymddiheuriadau:** DP;JOJ;LLMH; JAJ; EO;RY; IW<br>**Mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| 3 | **Cofnodion 06.02.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 06.02.25 fel rhai cywir (DAW/AR)<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Cyflenwad Dwr yng Ngharmel –** cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 19.3.25 am 6pm<br><br>**Materion Priffyrdd –** rhai ymatebion i law a rannwyd eisoes. JL am gysylltu ag Alun Roberts i bwyso ymhellach am ymweliad safle. Clerc DAW a RJ i fynychu hefyd<br><br>**Adolygu Camerau Diogelwch –** 4 pris i law ond dim digon o wybodaeth arbennigol i'w trafod yn gyflwan. Cytunodd JL i ofyn i |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | berson mae'n adnabod eu harchwilio yn annibynnol ac adrodd yn ôl. – ymlaen i mis Ebrill.<br><br>**Prisiau Giat y Fynwent –** 2ail bris i law a threfniadau ar y gweill am 3ydd pris – ymlaen i mis Ebrill<br><br>**Cloc y Pentref** – adroddwyd bod costau ychwanegol o £1200 i lanhau a adnewyddu wyneb y cloc. Bydd hwn i'w dalu ar ddiwedd y broses. Clerc i holi Smiths of Derby am y gofynion trydanol ac adrodd hyny i'n trydanwr.<br>Nododd GW ei fod wedi ymweld gyda chontractwyr i edrych ar y to. Adroddiad pellach mis Ebrill.<br><br>**Wal ger safle parcio Capel Jeriwsalem**. Holwyd pwy sydd bia'r wal. Cytunwyd i'r Clerc holi CSYM ac os byddent yn fodlon ei thrwsio. Clerc hefyd i ofyn i Meirion Grieves ddal ar y gwaith hyd nes bydd ateb.<br><br>**Safle Tyn'Ffynnon** – nododd y Clerc ei bod wedi holi am yr arian £36K sy'n deillio o'r cais ar gyfer cefnogaeth gymunedol. Byddai hwn yn arian uniongyrchol i'r Ysgol Gynradd. Mae amodau a chytunwyd i'r Clerc gysylltu eto er mwyn cael dealldwriaeth glir o'r amodau – ymlaen i mis Ebrill<br><br>**Tir gyfochrol i'r Bull –** cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Steven Owen CSYM i holi am y bwriadon gyda'r ardal tu cefn i 31 Stryd Fawr gan fod y tenant gyda'r cwn swnllyd/perygl wedi gadael bellach.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 06.02.25 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Diogelwch Cynghorwyr –** adroddwyd ar ddigwyddiad diweddar lle bu aelod o'r cyhoedd guro ar ddrws un o'r Cynghorwyr (oedd ddm adref ar y pryd) ac ymddwyn yn fygythiol iawn tuag at aelod o'r teulu. Cytunwyd yn unfrydol nad oedd hyn yn ymddygiad derbyniol a bod y mater wedi ei ddwyn i sylw'r Heddlu. O ganlyniad penderfynwyd llunio Polisi Goddef Dim – JL/Clerc i holi am dempled addas. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 06.02.25**<br>• Cyflog Clerc – Chwefror = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM<br>• GP Fire Services – Clwb Bowlio a CPD - £25.59 X 2<br>• SP bil terfynol Coeden Dolig £156.16<br>• SP bil terfynol Uned 1 £13.66<br>• SP bil terfynol Uned 2 £74.09 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Biliau cyfredol** - dim i law<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £2245.63<br>**Cyfrif Cadw:** £42 961.76<br><br>Cyfeirwyd at weddill lluniau Marged Ann sydd bellach ar werth yn yr Hwb. Cytunwyd i'r Hwb dderbyn £10 o pob gwerthiant o £50 o hyn ymlaen.<br>Cytunwyd i'r taliadau blynyddol canlynol:<br>Yr Arwydd - £50<br>Ffermwyr Ifanc Môn - £50<br>Marie Curie ar gyfer cefnogaeth lleol - £50<br>Ambiwlans Awyr £50<br>Cyfanswm am 2024-25 o £200 |
| 6 | **Materion Cynllunio**<br>**Pandy Llannerchymedd –** Clerc wedi holi'r cymydog am eu barn. Roeddynt yn pryderu am allu y system garffosiaeth bresennol i ymdopi. Anfonwyd y sylwad hwn yn ymateb ar ran CC Llan. Mae cadarnahd wedi ei dderbyn gan yr Adran Cynllunio bod y system bresennol yn ddigonol. Cais o ganlyniad wedi ei gymeradwyo. |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>Cyfeiriodd JL at gyllideb y Cyngor Sir gafodd ei chymeradwyo yn gynharach prynhawn heddiw – sef codiad o 8.5%. |
| 8. | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd yn mynd rhagddo<br><br>**Safle'r Stesion** –. arwyddion gwybodaeth newydd ar eu ffordd trwy Menter Môn<br><br>**Lawnt Fowlio** – angen symud un o'r biniau i'r Cae Astro<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** – prisio giatiau yn mynd rhagddo<br><br>**Cae Gofeb –** holodd AR am unrhyw drefniadau Diwrnod VE eleni. Nid oedd gwybodaeth i law ond penderfynwyd i'r Clerc holi Pennaeth yr Ysgol Gynradd ac i drafod cynnig cefnogaeth ariannol ym mis Ebrill. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:15* | |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383